# LC1313

| ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU | LEGISLATION COMMITTEE REPORT |
|---|---|

## Gorchymyn Rheoli Clefydau a Phlâu Gwenyn (Cymru) 2006

Mae’r Gorchymyn hwn, yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn Rheoli Clefydau Gwenyn 1982 ac yn dirymu’r Gorchymyn Mewnforio Gwenyn 1997.

## Rheol Sefydlog 11.7

Mae’r pwyntiau canlynol wedi’u nodi i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 11.7.

Mae paragraffau (2), (3) a (4) yn cynnwys croesgyfeiriadau at baragraff 4 heb esboniad pellach. Os bwriadwyd i’r rhain gyfeirio at baragraff 4 yr Atodlen, dylai hynny gael ei wneud yn eglur. Os mai rhyw baragraff 4 arall a fwriadwyd, dylai’r ddarpariaeth gael ei gwneud yn eglur. [Rheol Sefydlog 11.7(v)]

Yn erthygl 8(1)(a), mae’r rhestr o eitemau sydd i’w dinistrio neu eu trin yn cychwyn gyda "the hive" yn Saesneg, ond nid yw’r eitem hon wedi’i chynnwys yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Ar ddiwedd erthygl 8(4), mae’r testun Saesneg yn caniatáu cyflwyno hysbysiadau pellach ("may"). Mae’r elfen ganiataol hon ar goll yn y Gymraeg "gall", felly dylid defnyddio "caiff" yn ei le. [Rheol Sefydlog 11.7(vi)]

Mae’r rhain oll yn fân gamgymeriadau drafftio neu deipio sy’n briodol i’w cywiro trwy Femorandwm Cywiriadau.

## Sylwadau

Mae nifer o bwyntiau fformatio a sillafu sy’n briodol i’w cywiro wrth eu cyhoeddi, wedi’u dwyn i sylw’r cyfreithiwr sy’n drafftio.

## David Melding AC

Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau

## 20 Mehefin 2006